Amserlen ddiwygiedig ar gyfer ystyried y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)

Gorffennaf 2017

Ar 12 Rhagfyr 2016, gosododd y Pwyllgor Busnes adroddiad, yn unol â Rheol Sefydlog 26.7, yn pennu dyddiad cau, sef 12 Mai 2017, i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) a chyflwyno adroddiad arnynt, a dyddiad cau, sef 14 Gorffennaf 2017, ar gyfer cwblhau trafodion Cyfnod 2.

Ar 10 Ebrill 2017, mewn ymateb i gais gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, cytunodd y Pwyllgor Busnes i osod adroddiad diwygiedig yn newid y dyddiad cau i'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad i 24 Mai 2017 ac yn newid y dyddiad ar gyfer cwblhau trafodion Cyfnod 2 i 21 Gorffennaf 2017.

Ar 6 Mehefin ysgrifennodd Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes at bob Aelod Cynulliad cyn y ddadl Cyfnod 1 i roi gwybod iddynt na fyddai'n gwneud y cynnig o ran y penderfyniad ariannol tan ar ôl yr haf. O ganlyniad i hyn, cytunodd y Pwyllgor Busnes i osod adroddiad diwygiedig, yn diwygio'r dyddiad cau ar gyfer trafodion y pwyllgor yng Nghyfnod 2 o 21 Gorffennaf 2017 i 20 Hydref 2017.